# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 8 Tachwedd 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

## 100(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yn ateb cwestiynau ar ran y Prif Weinidog.

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi Cymru

(30 munud)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Polisi Ynni

(30 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Ffliw adar

(30 munud)

## 6 Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022

(15 munud)

**NDM8117** – Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2022.

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – wedi'i diweddaru

## 7 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022

(15 munud)

**NDM8116** – Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Hydref.

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 8 Dadl: Cymorth i Gymuned y Lluoedd Arfog

(60 munud)

**NDM8118** – Lesley Griffiths (Wrecsam)

**Cyd-gyflwynwyr:**
Darren Millar (Gorllewin Clwyd)
Siân Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cofio ac yn cydnabod cyfraniad pawb sydd wedi gwasanaethu yn ein Lluoedd Arfog ac sy'n gwasanaethu ynddynt yn awr, yn enwedig y rhai a wnaeth yr aberth eithaf.

2. Yn mynegi ei diolchgarwch i'r Lluoedd Arfog yng Nghymru am eu cyfraniad parhaus i fywyd Cymru.

3. Yn croesawu ac yn talu teyrnged i'r gefnogaeth y mae sefydliadau'r trydydd sector yn ei darparu i'n cymuned Lluoedd Arfog yng Nghymru.

4. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni Cyfamod y Lluoedd Arfog drwy ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth bwrpasol i'n cymuned Lluoedd Arfog a thrwy gydweithio ac ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid.

**Cefnogwyr:**

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi'r angen i ymdrechu i gael datrysiad heddychlon i bob gwrthdaro a rhoi terfyn ar ryfel.

Yn cofio pawb sydd wedi colli eu bywydau mewn rhyfeloedd a gwrthdaro, gan gynnwys anafusion sifil.

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 9 Tachwedd 2022

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 03/11/2022 i'w hateb ar 08/11/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Hefin David** *Caerffili*

1 OQ58682 (e)

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu tai cymdeithasol mewn ardaloedd lle mae galw mawr?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

2 OQ58684 (e)

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

3 OQ58654 (e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i annog awdurdodau lleol Cymru i gyhoeddi datganiadau o fwriad y rhwymedigaeth cwmni ynni (ECO4)?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ58648 (w)

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl fferyllfeydd cymunedol o ran gwella a hybu iechyd trigolion Gorllewin De Cymru?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

5 OQ58683 (e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i frwydro yn erbyn newid hinsawdd yng Nghymru?

**Joel James** *Canol De Cymru*

6 OQ58672 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y meini prawf cymhwyso ar gyfer technoleg monitro glwcos fflach a thechnoleg monitro glwcos barhaus ar gyfer rheoli diabetes?

**Peter Fox** *Mynwy*

7 OQ58653 (e)

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gwella mynediad at wasanaethau eiriolaeth?

8 **Vikki Howells** *Cwm Cynon*

OQ58660 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith Parc Rhanbarthol y Cymoedd?

9 **Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

OQ58642 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy?

10 **Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

OQ58659 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi cymuned y lluoedd arfog yng Nghymru?

11 **Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

OQ58651 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau hygyrchedd gwasanaethau ariannol yng Nghymru?

12 **Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

OQ58646 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod plant o gefndiroedd tlotach yn cyrraedd eu potensial o fewn system addysg Cymru?